Rhoddodd y Cadeirydd fanylion rhai o'r digwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ers y cyfarfod diwethaf. Roedd wedi mynychu achlysur y Frenhines yn cyflwyno'r Baneri i Gatrawd Frenhinol Cymru yng Nghaerdydd a diolchodd i Gadeirydd Mynwy a'i Is-gadeirydd am fynd i ddigwyddiadau ar ei ran.

Dywedodd nad oedd y system gyfieithu ar gael ar gyfer y cyfarfod.

<b>5.</b>	<b>CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD</b>	<b>CC62 – 2015</b>
-----------	---------------------------------	--------------------

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn cael ei gynrychioli yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y Gweinidog wedi cyhoeddi'r map yn dangos ffiniau arfaethedig y cynghorau i'r dyfodol. Cynigiwyd na fyddai ffiniau Cyngor Sir Powys yn newid ond y byddai angen i'r Awdurdod gydweithio gyda Bwrdd Iechyd addysgu Powys. Roedd y Cabinet wedi cyfarfod â'r Bwrdd Iechyd yr wythnos cynt.

Nododd yr aelodau farwolaeth drist y cyn Cynghorydd, John Bowen yn ddiweddar a safodd y Cyngor am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

<b>6.</b>	<b>BRIFF Y PRIF WEITHREDWR</b>	<b>CC63 – 2015</b>
-----------	--------------------------------	--------------------

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cynigion ar gyfer Campws Dysgu Aberhonddu ac wedi buddsoddi £55 miliwn yn y prosiect hwn.

Roedd y broses ddiweddar o drosglwyddo'r cyfleusterau hamdden i ddwylo Freedom Leisure wedi cael ei chwblhau'n llwyddiannus. Roedd wedi derbyn llythyr oddi wrth Undeb y GMB yn llongyfarch y Cyngor a Freedom Leisure ar sut y gwnaed y trosglwyddiad hwn. Roedd Canolfan Ddydd Westwood wedi cael ei throsglwyddo i Gyngor Tref y Trallwng a throsglwyddwyd y toiledau yn y Gelli i Gyngor Tref y Gelli.

Byddai'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli yn Sioe Frenhinol Cymru ac ar 22<sup>ain</sup> Gorffennaf byddai digwyddiad Dementia yn cael ei gynnal i hyrwyddo Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Dementia. Byddai cynrychiolaeth y Cyngor yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn hyrwyddo'r Cyngor a hefyd yn cael ei defnyddio i hyrwyddo'r Sir fel lle i fyw a gweithio a hefyd i hyrwyddo cyflenwyr bwyd a diod lleol.

Ar y penwythnos byddai'r Wyl Feicio gyntaf yn cael ei chynnal yn Llandrindod, a byddai hon yn hyrwyddo'r dref i ymwelwyr newydd.

Dywedodd y Cynghorydd M.C. Alexander ei bod yn deall y byddai Cymdeithas yr Iaith yn mynychu'r Eisteddfod ac y byddai'n beirniadu polisïau'r Cyngor. Cytunodd y Prif Weithredwr i lunio ymateb i'w pryderon.

Ymunodd y Cynghorydd Sir S.M. Hayes â'r cyfarfod.

<b>7.</b>	<b>TROSGLWYDDIADAU SYDD ANGEN CYMERADWYAETH Y CYNGOR</b>	<b>CC64 – 2015</b>
-----------	--	--------------------

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r trosglwyddiadau.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad:</b>
<b>Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a welir yn y rhestr a ffeiliwyd gyda'r cofnodion llofnodedig.</b>	<b>Fel sy'n ofynnol dan reolau sefydlog ariannol.</b>

Gadawodd y Cynghorydd Sir S.M. Hayes y cyfarfod.  
Fe wnaeth y Cynghorwyr Sir S Davies, L. Fitzpatrick, J. Jones a G. Ratcliffe, ar ôl datgan buddiant personol a rhagfarnus, adael yr ystafell gyfarfod ar gyfer yr eitem nesaf. `

<b>8.</b>	<b>FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR</b>	<b>CC65 – 2015</b>
-----------	---	--------------------

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol Pobl ei hadroddiad blynyddol fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer y cyfnod 1<sup>af</sup> Ebrill 2014 i 31<sup>ain</sup> Mawrth 2015. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyflawniadau, y perfformiad a'r risgiau yn ogystal â chynlluniau ar gyfer gwella ar yr ystod lawn o swyddogaethau sydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn defnyddio'r adroddiad hwn i hysbysu eu gwerthusiad annibynnol o Bowys a'u cynllun arolygu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Talodd y Cyfarwyddwr Strategol deyrnged i'w staff am eu gwaith yn darparu gwasanaethau.

Nododd y Cyngor fod Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd addysgu Powys [BlaP] yn arwain adolygiad cenedlaethol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed [CAMHS]. Mynegwyd pryderon ynghylch lefel yr oedi wrth drosglwyddo gofal. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Pobl am y gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater hwn a wnaed yn arbennig o gymhleth ym Mhowys drwy weithio gydag wyth o ysbytai cyffredinol dosbarth yn cynnwys materion trawsffiniol. Roedd CSP a BlaP yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ar y flaenoriaeth allweddol hon.

Cydnabu'r Cyfarwyddwr a'r Aelod Portffolio effaith y newidiadau mewn gofal yn y cartref ac roedd effaith hyn ar nifer o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ofid iddynt oherwydd bod hynny'n annerbyniol. Gwnaed llawer iawn o ddysgu a gwelliannau ers hynny i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn, i liniaru'r risg a sicrhau ffordd glir ymlaen. Roedd adolygiad strategol yn cael ei wneud o ofal yn y cartref er mwyn ystyried modelau hirdymor cynaliadwy o ddarparu, gan gynnwys mwy o integreiddio gyda BlaP. Byddai'r holl opsiynau posibl ar gyfer darparu effeithiol i'r dyfodol yn cael eu hystyried gydag adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Hydref.

Derbyniodd yr aelodau dair stori ddigidol yn disgrifio profiadau defnyddwyr gwasanaethau a meysydd gwaith a gyflwynir gan y gwasanaethau cymdeithasol.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
<b>Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad yn Atodiad 1.</b>	<b>Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol i lunio adroddiad blynyddol.</b>

<b>9.</b>	<b>LWFANSAU A THREULIAU'R AELODAU</b>	<b>CC66 – 2015</b>
-----------	---------------------------------------	--------------------

Derbyniodd y Cyngor er gwybodaeth fanylion lwfansau a threuliau'r Aelodau ar gyfer 2014-15. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi'r wybodaeth erbyn 30<sup>ain</sup> Medi 2015.

Nodwyd bod y Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig a ddangosir ar gyfer y Cynghorydd G.W. Ratcliffe yn anghywir ac mai'r swm a dalwyd i'r Cynghorydd P.C. Pritchard ydoedd mewn gwirionedd. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau (Swyddog Adran 151) y byddai'n darparu esboniad am y cynnydd o 10.94% mewn Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig rhwng 2013-14 a 2014-2015. Byddai hefyd yn adolygu amseriad cyhoeddi'r data a'r llythyrau a anfonir at Gynghorwyr yn gofyn iddynt gadarnhau'r data.



<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
Derbyn yr adroddiad.	Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd o fewn yr amserlen ofynnol.

<b>10.</b>	<b>CYFANSODDIAD NEWYDD</b>	<b>CC67 – 2015</b>
------------	----------------------------	--------------------

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r newidiadau yn y Cyfansoddiad Newydd a'r adrannau newydd.

### Diwygiadau i adrannau Cymeradwy'r Cyfansoddiad

Adran 2 - Pwrpas, Diffiniad, Dehongli a Diwygio'r Cyfansoddiad.  
 Adran 4 - Cyngor Llawn - Ffilmio, Recordio Sain a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd  
 Adran 19 - Cod Ymddygiad Aelodau a Swyddogion Ymdrin â Materion Cynllunio.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
iii. Cymeradwyo'r diwygiadau i Adran 2 a 4 o'r Cyfansoddiad newydd a gaiff eu nodi yn yr adroddiad.	Er mwyn cytuno ar adrannau'r Cyfansoddiad newydd.
iv. Cymeradwyo Adran 19 oedd wedi'i diwygio ac a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.	

### Adrannau Newydd i'w Cymeradwyo

Adran 7	Pwyllgorau Craffu a'r Trefniadau ar gyfer Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (fel y nodir yn Atodiad 3)
Adran 12	Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol
Adran 13	Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau
Adran 17	Rheolau Gweithdrefnau Contractau
Adran 20	Cod Ymarfer ar gyfer Gweithwyr
Adran 21	Protocol ar Berthnasoedd Aelodau / Swyddogion

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
Cymeradwyo'r Adrannau o'r Cyfansoddiad newydd a nodir uchod ynghyd â'r trefniadau ar gyfer Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (fel y nodir yn Atodiad 3).	Er mwyn cytuno ar adrannau'r Cyfansoddiad newydd.

### Cymeradwyo'r Dyddiad ar gyfer Gweithredu'r Cyfansoddiad Newydd

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
---------------------	---------------------------------

<b>Bod y Cyfansoddiad newydd i ddod i rym o 1<sup>af</sup> Medi, 2015 ymlaen.</b>	<b>Er mwyn cytuno ar adrannau'r Cyfansoddiad newydd.</b>
---	--

Diolchwyd i Aelodau'r Gweithgor Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r swyddogion am wneud y gwaith hwn.

<b>11.</b>	<b>DATBLYGU AELODAU – DATBLYGU GORFODOL AC ANORFODOL</b>	<b>CC68 – 2015</b>
------------	--	--------------------

Ystyriodd y Cyngor argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.

Mewn ymateb i feirniadaeth ynghylch cynnwys a gwerth y rhaglen ddatblygu dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y dylai Aelodau roi gwybod iddo yr hyn roeddent eisiau o'r rhaglen. Er mwyn ymateb i anghenion yr Aelodau, byddai sesiynau datblygu gorfodol o 2016 ymlaen yn cael eu darparu ar ddau ddiwrnod gwahanol mewn wythnosau gwahanol a byddai e-ddysgu yn cael ei ddatblygu lle bo hynny'n bosibl.

Cynigiwyd ac eiliwyd i ddileu paragraff 2.3 (iii) "Os yw Aelod yn methu â mynychu/cwblhau "datblygu gorfodol" gofynnol o fewn yr amser yn iij uchod bydd yn ofynnol iddynt ymddangos gerbron y Cyngor i ymddiheuro a chytuno i gwblhau'r datblygiad o fewn yr amser sy'n ofynnol gan y Pwyllgor Safonau"

Rhodddwyd y cynnig i bleidlais a chytunwyd.

<b>PENDERFYNWYD</b>	<b>Rheswm am y Penderfyniad</b>
<p>v. Y byddai Datblygu Gorfodol yn cael ei ddarparu fel y nodir yn yr adroddiad, fel y'i diwygiwyd.</p> <p>vi. Yn nyddiaduron y Cyngor i'r dyfodol, byddai sesiynau Datblygu Gorfodol yn cael eu nodi a byddai pob sesiwn yn cael ei darparu ddwywaith y flwyddyn, gan roi opsiynau i'r aelodau o ran presenoldeb.</p> <p>vii. Byddai manylion cost sesiynau Datblygu Gorfodol yn cael eu darparu i'r Aelodau.</p> <p>viii. Byddai presenoldeb mewn sesiynau Datblygu Anorfodol yn cael ei gofnodi ond nid ei fonitro. Byddai disgwyl i Aelodau fynychu sesiynau i'w helpu yn eu rolau.</p>	<p><b>Er mwyn helpu datblygiad proffesiynol parhaus Aelodau a'u hannog i weld hyn fel rhan o'u rôl fel cynghorwyr.</b></p>

<b>12.</b>	<b>DYDDIADUR Y CYNGOR 2016</b>	<b>CC69 – 2015</b>
------------	--------------------------------	--------------------

Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyngor ddyddiadur cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2016.

<b>13.</b>	<b>HYSBYSIAD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD SIR ALED DAVIES A'R CYNGHORYDD SIR TOM TURNER AR</b>	<b>CC70 – 2015</b>
------------	---	--------------------

Roedd y Cynghorwyr Aled Davies a Tom Turner wedi cyflwyno'r cynnig canlynol:

Mae Grŵp y Ceidwadwyr yn credu mewn sybsidiaredd, yr egwyddor y dylai Cyngor Sir Powys fod ag is-swyddogaeth, gan ddim ond cyflawni'r tasgau hynny na ellir eu cyflawni ar lefel fwy lleol. Mae'r grŵp Ceidwadol yn cefnogi'r egwyddor Cyflawni'n Lleol, gan fod y dull a ffafir ar hyn o bryd o gyflawni'n lleol yn rhy fiwrocraidd a beichus. Mae'r Grŵp Ceidwadwyr yn galw ar y Cyngor i ymddiried yn ein cymunedau a chefnogi newid cyfeiriad i roi i Gymunedau Tref a Chymuned a'u Cynghorydd Sir gyfrifoldeb llawn dros gyflawni gwasanaethau dethol yn eu hardal trwy drosglwyddo 100% o'r gyllideb heb unrhyw amodau.

Dywedodd y Cynigydd, y Cynghorydd Sir Aled Davies, fod y cynnig wedi'i ddiwygio i gyfeirio at "Gynghorau Tref a Chymuned" yn hytrach na "Gymunedau Tref a Chymuned".

Eiliodd y Cynghorydd Sir Tom Turner y Cynnig diwygiedig.

Trafododd y Cyngor y cynnig. Yn ystod y drafodaeth, nodwyd bod y Cyngor yn symud i gylch cyllideb tair blynedd. Dywedodd y Swyddog Adran 151 fod angen i unrhyw gynigion i drosglwyddo gwasanaethau ac adnoddau penodol i drydydd partion gael eu hasesu o safbwynt "gwerth am arian" nid yn unig i'r gymuned leol ond hefyd i dalwyr y Dreth gyngor a'r Cyngor fel cyfangorff ac y byddai angen cytuno ar drefniadau llywodraethu priodol.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac fe'i gwrthodwyd.

<b>14.</b>	<b>CWESTIYNAU'N UNOL A'R CYFANSODDIAD</b>	<b>CC71 – 2015</b>
------------	---	--------------------

Cymerwyd y cwestiynau yn y drefn ganlynol.

**Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Adnoddau Dynol gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Rwy'n falch o ymrwymiad Cyngor Sir Powys i dalu ei weithwyr y Cyflog Byw ond pam ei fod yn symud rhai o'r gweithwyr cyflogau isaf oddi ar gyflogres y Cyngor sy'n golygu na fyddant yn elwa o gyflog teg?**

*Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw staff sy'n cael ei symud oddi ar ein cyflogres, ac eithrio staff y Gwasanaethau Hamdden sy'n cael eu trosglwyddo i Freedom Leisure gyda'u telerau ac amodau gwasanaeth cyfredol yn cael eu diogelu yn unol â*

*darpariaethau TUPE. Rwy'n deall bod eich cwestiwn yn ymwneud yn benodol â staff arlwygo a glanhau. Er bod trafodaethau ar y gweill ynghylch y trefniadau rheoli ar gyfer staff arlwygo a glanhau sy'n darparu gwasanaethau i ysgolion ac a fyddai'n fwy priodol i'r staff hyn gael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr ysgolion, nid oes unrhyw gynlluniau i erydu cyflogau nac amodau'r staff hyn na newid y sawl sy'n gweinyddu eu cyflog.*

Addawodd yr Aelod Portffolio i ddarparu ymateb i gwestiwn atodol y Cyngorydd Dorrance ynglŷn ag a fyddai ysgolion yn derbyn adnoddau ychwanegol pe byddai staff arlwygo a glanhau yn cael eu rheoli ganddynt hwy.

## **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Prifffyrdd gan y Cyngorydd Sir Matthew Dorrance**

### **Pa gynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud i ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer rhwydwaith teithio llesol?**

*Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) Llywodraeth Cymru i rym ym mis Medi 2014 a'r nod ydy darparu cyfleoedd i wneud ymarfer corff llesol ar draws Cymru. Yn ymarferol, y pwyslais presennol yw sicrhau bod y rhwydweithiau llwybrau cerdded a beicio lleol yn gydlynol. Dylent gynnig cysylltedd a mynediad diogel i gyflogaeth leol, a chyfleusterau addysg a chymorth busnes, teithiau cymdeithasol a hamdden.*

*Bydd darparu cyfleusterau newydd neu well angen cyllid cyfalaf allanol a bydd rhwydweithiau sy'n tyfu yn cynyddu'r angen am archwiliadau a chynnal a chadw i'r dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd statudol newydd ar bob awdurdod lleol i lunio mapiau o'r holl drefi sydd â mwy na 2,000 o drigolion. Rhaid i'r rhain ddangos yr holl lwybrau sydd eisoes yn bodoli, a'r 11 ardal adeiledig a gaiff eu mapio ym Mhowys yw: Aberhonddu, Llanfair-ym-muallt, Crughywel, Trefyclo, Llandrindod, Llanidloes, Machynlleth, y Drenewydd, Llanandras, y Trallwng ac Ystradgynlais.*

*Bydd mapiau drafft ar gael o fis Medi ymlaen a bydd ymarferiad ymgynghori cyhoeddus yn rhoi cyfle i drigolion Powys roi sylwadau arnynt, naill ai drwy arolwg arlein neu mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb sy'n cael eu cynnal ym mhob tref yn ystod mis Medi a mis Hydref. Bydd swyddogion hefyd yn gweithio gydag ysgolion yn yr un ar ddeg ardal i gasglu barn myfyrwyr.*

*Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio ar draws y sir ers bron i ugain mlynedd. Ymysg y buddsoddiadau blaenorol y mae llwybrau di-drafftig i mewn i ganolfannau lleol a rhwng trefi, ac amrywiaeth eang o brosiectau "Llwybrau Mwy Diogel". Mae enghreifftiau da i'w cael yn Aberhonddu a'r Drenewydd lle mae gan y ddwy dref gysylltiadau â champws Coleg Powys a'r Ysgol Uwchradd ac mae ganddynt hefyd lwybrau ar lan yr afon. Mae'r prosiectau hyn wedi cael eu hadeiladu mewn partneriaeth, ee gyda Sustrans, y Parc Cenedlaethol, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru a thirfeddianwyr lleol.*

*Yn gyffredinol, mae pellter o hyd at 2 filltir ar droed, neu 5 milltir ar feic, yn cael ei ystyried yn briodol i esgor ar ddefnydd bob dydd. Fodd bynnag, mae gan y sir hefyd rwydwaith o lwybrau rhanbarthol a chenedlaethol sy'n caniatáu teithio pellteroedd hirach ond sydd ar gael i ddefnyddwyr lleol. Mae'r rhain, ynghyd â Hawliau Tramwy niferus y sir yr un mor bwysig i hyrwyddo defnydd hamdden llesol a chefnogi'r diwydiant twristiaeth. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu llwybrau yn gyfyngedig ar gyfer 2015/16 a dim ond £7,000 a ddarparwyd i gynorthwyo gyda gwaith tirlfesur a llunio mapiau ar gyfer trefi cymwys y sir.*

*O ran datblygu ei "weledigaeth", mae'r Cyngor wedi cyfrannu at lunio safonau dylunio ac adeiladu ar gyfer llwybrau teithio llesol yng Nghymru ac mae wedi derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer ei Gydgyllun Trafnidiaeth Lleol sy'n cefnogi cerdded a beicio. Bydd Cynllun Teithio Corfforaethol y Cyngor ei hun a'r gofynion i lunio cynllun teithio a roddir ar ddatblygiadau newydd, gan gynnwys ysgolion, yn parhau i annog pobl i ddefnyddio cyfleusterau newydd, a'r rhai presennol. Y bwriad yw y bydd ymateb yr Awdurdod i'r Ddeddf Teithio Llesol yn cael ei lywio gan fuddiannau lleol a drwy ymgynghori â defnyddwyr. Mae'n anochel y bydd twf y rhwydwaith yn cael ei reoli gan faint o gyllid fydd ar gael.*

Addawodd y Aelod Portffolio i ddarparu ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance ynglŷn â'r angen am lwybrau beicio diogel i blant ysgol yn Aberhonddu.

### **Cwestiwn i Aelod Portffolio yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Pa ymgynghori y mae'r Cyngor wedi'i wneud gyda dinasyddion Powys ar gynlluniau i gael gwared ar y casgliadau sbwriel bob pythefnos?**

*Bydd y Cyngor yn cynnal ymarferiad ymgynghori ym mis Awst cyn i unrhyw newidiadau gael eu gwneud i'r gwasanaeth casglu gwastraff gweddilliol. Bydd nifer o ddulliau yn cael eu defnyddio i gasglu barn gan gynnwys arolygon post/ar-lein i drigolion, grwpiau ffocws i weithwyr, arolygon wedi'u targedu dros y ffôn neu wyneb yn wyneb gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol. Bydd y broses ymgynghori yn cael ei hysbysebu drwy ddatganiadau i'r wasg, bwletinâu staff a safle'r fewnruyd, ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ymgyrchoedd poster, gwefannau cyhoeddus, a bwletinâu'r Aelodau. Byddwn hefyd yn ymgynghori â sefydliadau fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, PAVO, Age Cymru, a sefydliadau ar gyfer pobl anabl hefyd.*

*Bydd y broses ymgynghori yn sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael ei defnyddio i lunio'r gwasanaeth a galluogi'r Cyngor i gofnodi pryderon a darparu mesurau lliniaru fel y bo'n briodol.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol dywedodd yr Aelod Portffolio fod y cyfryngau wedi cael eu defnyddio i hysbysu'r cyhoedd o'r ymgynghoriad arfaethedig. Mae'r gwasanaeth o'r farn na fyddai symud i wasanaeth casglu bob tair wythnos yn cael effaith ar gyfraddau ailgylchu.

## **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

**Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnais yn y Cyngor Llawn ar 23<sup>ain</sup> Ebrill 2015 rwyf wedi derbyn rhagor o wybodaeth yn ddiennw sy'n dangos bod Cyngor Sir Powys wedi talu i Smartsourcing PLC o fis Tachwedd 2010 i fis Chwefror 2013 gyfanswm o £252,716.00. Mae hyn yn llawer iawn mwy na'r £136,735.00 a nodwyd yn yr ateb i'r cwestiwn a ofynnais fel y nodwyd yn flaenorol. A all yr Aelod Portffolio egluro pa ffigur sy'n gywir os gwelwch yn dda?**

*Mae Cyngor Sir Powys wedi talu i Smartsourcing PLC gyfanswm o £427,494.30 yn cynnwys TAW o 01/09/2010 i 30/06/2014 mewn perthynas â nifer o brosiectau, y mae £136,735 ohono'n ymwneud â'r tendr Gofal Cartref.*

Addawodd yr Aelod Portffolio i ddarparu ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price ynghylch y prosiectau eraill a gynhelir gan Smartsourcing PLC.

## **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

**Dywedodd un o Aelodau'r Cynulliad yn Siambr y Senedd yn ystod Sesiwn Holi Prif Weinidog Cymru ar 2<sup>il</sup> Mehefin 15. (Gan ddilyn Testun o drawsgrifiad) Mae'n ymddangos erbyn hyn o adroddiad y diddymwr, bod Cyngor Sir Powys, mewn gwirionedd, yn rhoi benthyg arian trethdalwyr i'r cwmni hwnnw i dalu eu bil CThEM ac yn y broses o ddarparu benthygiad arall i'r cwmni hwnnw i'w hisgontractwyr gael eu talu pan aeth y cwmni hwnnw'n fethdalwr. A all yr Aelod Portffolio gadarnhau a yw hyn yn gywir os gwelwch yn dda?**

*Mae'r cwestiwn hwn wedi cael sylw mewn cwestiwn blaenorol i'r Cyngor ar 23<sup>ain</sup> Ebrill. Roedd yr ymateb fel a ganlyn:*

*Rhoddodd Cyngor Sir Powys gymorth ariannol i Alpha Care gyda swm arian i gynorthwyo gyda'i lif arian ym mis Awst 2014 er mwyn amddiffyn cyflenwad gwasanaeth a sicrhau bod cyflogau gweithwyr yn cael eu talu.*

*Y swm ariannol a roddwyd ym mis Awst 2014 oedd £50,000 ac fe'i hawdurdodwyd gan swyddogion yn y gwasanaeth fel penderfyniad gweithredol. Mae'r swm hwn wedi ei adennill. Mae'n gywir y gofynnwyd i'r Cyngor am fenthygiad, ond gwnaed penderfyniad i beidio â darparu cymorth ariannol.*


Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

## **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Gofal Cymdeithasol i Oedolion gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

**A all yr Aelod Portffolio ddarparu manylion nifer y galwadau Gofal Cartref sydd wedi cael eu methu bob mis ym mhob un o'r Rhanbarthau ar wahân er Ebrill 2014?**

*Nid oes diffiniad cenedlaethol o alwadau 'hwyr neu a fethwyd' ar gael ar hyn o bryd ac mae Powys wedi diffinio yn hanesyddol wedi diffinio galwadau a gyflawnir dros 1 awr yn hwyr fel 'galwad a fethwyd'. Mae gofyn adolygu'r diffiniad hwn ac ymgynghori â'n cwsmeriaid i'r dyfodol wrth inni geisio gwella gwasanaethau a symud at gyflenwi gwasanaethau'n fwy hyblyg a gallu cwsmeriaid i ddefnyddio'r oriau cymorth a ddyrennir iddynt yn fwy hyblyg.*

Missed Calls Reported 1st April 2014 to 30th June 2015



Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, sicrhodd yr Aelod Portffolio ef yr ymdrinnir â galwadau mor effeithiol â phosibl.

### Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Addysg gan y Cynghorydd Sir Gary Price

**A all yr aelod portffolio ddweud wrth y Cyngor faint mae'n ei gostio i ymgynghoriaeth Sbectrwm gynnal adolygiad o addysg, a pham mai dim ond yng Ngogledd Powys y mae'n cynnal yr adolygiad hwnnw?**

*Cost y contract yw £24,000. Ymrwymwyd i gontract gyda Sbectrwm oherwydd iddo gael llwyddiant cyson yn cyflawni prosiectau sy'n canolbwyntio ar addysg cyfrwng Cymraeg ac oherwydd bod y gwaith yn gofyn am fod yn rhugl yn y Gymraeg. Mae adolygiadau/achosion busnes eraill yn cael eu cynnal yn fewnol.*

Dywedodd yr Aelod Portffolio mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Price, oherwydd bod chwe ysgol i'w chael yn yr adolygiad yng Ngogledd Powys, nid oedd ganddynt y capasiti yn fewnol i gynnal yr adolygiad hwn.

### Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Cyllid gan y Cynghorydd Sir David Price

**A allaf ofyn i'r Aelod Portffolio Cyllid, pa gamau sy'n cael eu cymryd i wella cywirdeb dogfennau cyllideb ysgolion a baratoir gan yr awdurdod? Mae'r ysgol lle'r wyf yn Gadeirydd i'r Llywodraethwyr wedi sylwi ar 3% o wahaniaeth rhwng y ffigurau a amcangyfrifwyd a'r ffigurau gwirioneddol ar ddiwedd y flwyddyn, yn flynyddol. Nid yw'r anghywirdeb ffigurau hwn yn helpu ysgolion ar adeg pan fyddant yn gofyn am gywirdeb llwyr i'w helpu i wneud penderfyniadau anodd ynghylch lefelau staffio.**

*Diolchaf i'r Aelod am godi'r mater hwn ac mae'n faes lle mae ysgolion a Llywodraethwyr ysgolion wedi bod yn datgan pryderon yn ei gylch ers rhai blynyddoedd. Er bod yr awdurdod wedi gwella ei berfformiad yn y maes hwn, mae'n ymddangos bod rhai problemau i'w cael o hyd a bod angen gwella ymhellach. Tra bûm yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Pobl ac yn Aelod Arweiniol ar y Gweithgor Craffu ar Addysg, codwyd y mater hwn gyda ni sawl tro.*

*Rwy'n cytuno'n llwyr gyda'r Cyng. Price, yn y cyfnod hwn o anhawster ariannol, gyda nifer o ysgolion yn ei chael yn anodd cydbwysu cyllidebau ac yn gorfod ystyried materion staffio anodd, ei bod yn hanfodol bod gan lywodraethwyr wybodaeth gywir a chyfredol y gallant ei defnyddio i wneud penderfyniadau.*

*Rwyf wedi trafod y mater hwn o'r blaen gyda'r Cyng. Arwel Jones, yr Aelod Portffolio Addysg, ac maent hefyd yn ymwybodol o faterion tebyg sydd wedi cael eu codi gan ysgolion ac rydym wedi cydgytuno bod angen edrych i mewn i'r mater, i weld beth yw'r problemau ac i geisio sicrhau gwasanaeth gwell ar gyfer ein hysgolion. Fy mwriad i oedd bwrw ymlaen â darn o waith ynglŷn ag adroddiadau cyllideb ysgolion ychydig wythnosau'n ôl, ond oherwydd amgylchiadau, nid wyf wedi symud ymlaen â'r mater hwn cystal ag y byddwn wedi hoffi ac ni allaf ond ymddiheuro am hyn. Fodd bynnag, rwyf wedi cyfarfod â'r Swyddog Cyllid Ysgolion ac wedi cytuno ar gamau gweithredu i ganfod ymhle yn y system y gellir gwneud gwelliannau. Rydym wedi cytuno i gyfarfod eto yn ystod mis Awst i drafod canlyniad yr adolygiad ac i benderfynu ar ba gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gwella'r sefyllfa. Bydd y gwelliannau hefyd yn cael eu trafod gyda'r Pennaeth Ysgolion a'r Pennaeth Gwasanaethau Proffesiynol.*

*Mae gennym hefyd ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, fel y gellir sicrhau unrhyw welliannau yr hoffent eu gweld yn fformat yr adroddiadau cyllideb.*

*Byddaf, wrth gwrs, yn bwrw'r mater hwn ymlaen gan weithio'n agos gyda'r Cynghorydd Arwel Jones, yn ogystal â'r Pennaeth Gwasanaethau Proffesiynol a'r Pennaeth Ysgolion a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y gwaith; bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Aelodau'n gyffredinol.*

Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.

**Cwestiwn i Aelod Portffolio yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd gan y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas**

**Yn dilyn yr adolygiad craffu yn ddiweddar ar faw cŵn a'r penderfyniad i wrthod yr argymhelliad i ymestyn y pŵer gorfodi i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a yw'r aelod portffolio bellach yn credu bod dull yr awdurdod o ddelio â baw cŵn yn ddigon cadarn i ddelio â'r broblem hon, sy'n cynddeiriogi ein**



**cymunedau? Mae cais Cyngor Tref Llanfyllin am Orchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus Ymddygiad Gwrthgymdeithasol dan y Ddeddf Troseddau a Phlisma Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn awgrymu i'r gwrthwyneb.**

*Ar hyn o bryd, gellir cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig dan y Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996, ond mae'r pwerau hyn wedi'u cyfyngu i'r awdurdod lleol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ddiweddar wedi gofyn i'r pwerau hyn gael eu hymestyn i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.*

*Yng ngoleuni'r cais hwn, mae'r Cyngor wrthi'n cynnal adolygiad o bwerau gorfodi mewn perthynas â baw cŵn ac fel rhan o'r broses hon mae'n ystyried dull gweithredu rhanbarthol ar draws ardal Heddlu Dyfed Powys. O reidrwydd, bydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â hysbysiadau cosb benodedig yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses hon. Dyma'r rheswm pam na all y Cyngor ar hyn o bryd ystyried y cais ar gyfer datgan Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (PSPO) gan Gyngor Tref Llanfyllin.*

*Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn cyflwyno adroddiad am ganlyniad yr adolygiad i'r Cabinet yn fuan.*

*Dylid nodi, yn y cyfamser, fod y ddarpariaeth i gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig yn parhau i fod mewn grym.*

*Dywedodd yr Aelod Portffolio mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Thomas y byddai Diogelwch Cymunedol yn cynnal arolwg ynglŷn â maint y broblem.*

**Cwestiwn i'r Aelod Portffolio Cynllunio ac Adfywio gan y Cynghorydd Sir Gillian Thomas**

**A all yr Aelod Portffolio Cynllunio roi gwybod am unrhyw gynnydd ynglŷn ag ailgyflwyno Cyfarfodydd Cyswllt Cynllunio?**

*Ar 6<sup>ed</sup> Gorffennaf cynheliais Fforwm Cyswllt Cynllunio a oedd yn agored i Gynghorau Tref a Chynghorau Cymuned wedi'u lleoli yn ardal cyfrifoldeb cynllunio Powys. Rhoddodd y cyfarfod sylw i faterion yn ymwneud â dangosyddion perfformiad Rheolwyr Datblygu, cynnydd y cynllun lleol, gwybodaeth am y Bil Cynllunio newydd yn ogystal â chyflwyniad am waith y Tîm Rheoli Adeiladu. Rwy'n bwriadu cynnal y Fforymau hyn ddwywaith y flwyddyn a gwahodd cydweithwyr o wasanaethau rheoleiddio eraill y gallent fod o ddiddordeb i Gynghorau Tref a Chymuned.*

*Nid oedd unrhyw gwestiwn atodol.*

## Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Aled Davies

**A oes gan yr Arweinydd hyder llwyr yn Sbectrwm a'u methodoleg wrth iddynt barhau i gynnal ymgynghoriad ar gyflwyno addysg mewn ysgolion yng Ngogledd Powys?**

*Cafodd Sbectrwm ei benodi i gynnal ymarferiad canfod ffeithiau am addysg uwchradd a chyfrwng Cymraeg. Mae'r gwaith yn gofyn am ddealltwriaeth a gwybodaeth benodol am addysg cyfrwng Cymraeg a rhuglder yn y Gymraeg. Mae Ymgynghoriaeth Sbectrwm wedi cael llwyddiant cyson yn darparu prosiectau sy'n canolbwyntio ar addysg cyfrwng Cymraeg a'r iaith Gymraeg, ac mae ganddynt ddealltwriaeth ddwfn o'r pwnc.*

*Y nod yw i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn yr hydref, fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar yr argymhellion yn yr adroddiad, a chydymffurfiaeth â'r broses Polisi Trawsnewid Ysgolion. Ni allaf gael fy ngweld yn rhag-gyflyru canlyniad yr ymarferiad canfod ffeithiau ac ni fyddaf yn rhoi unrhyw sylwadau pellach nes daw'r adroddiad gerbron y Cabinet. Edrychaf ymlaen at dderbyn eu hadroddiad.*

Dywedodd y Cynghorydd Sir A.W. Davies y dylai fod wedi datgan buddiant ariannol mewn perthynas â'r uchod oherwydd bod ei wraig yn athrawes yn un o'r ysgolion a dywedodd hefyd y byddai'n parhau i herio'r Cyngor ynglŷn â'r cynigion o safbwynt ysgolion.

Torrodd cyfarfod y Cyngor o 1.23 tan 2.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Sir P.J. Ashton (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir D. Bailey, G. Bowker, J.H. Brunt, K.W. Curry, A.W. Davies, E.R. Davies, L.R.E. Davies, M.J.B. Davies, S.C. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, G.G. Hopkins, J.C. Holmes, D.C. Jones, D.R. Jones, E.A. Jones, E.M. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, M.C. Mackenzie, S. McNicholas, P.J. Medlicott, E.T. Morgan, G. Morgan, W.J.T. Powell, K.M. Roberts-Jones, K.S. Silk, D.A. Thomas, D.G. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, D.H. Williams ac S.L. Williams.

<b>15.</b>	<b>GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU</b>	<b>CC72 – 2015</b>
------------	---	--------------------

Cafodd y Cyngor gyflwyniad ar Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân Chris Davies a oedd yno yng nghwmni'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Robert Quinn.

**P. J. ASHTON  
CADEIRYDD**